Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2024 i 2025

# Cynnwys


Beth yw Craffu? 3

Craffu ar Waith 4

Sut mae Craffu'n gweithio yn Sir Ddinbych? 4

Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu 5

Y broses ar gyfer penderfynu ar addasrwydd pwnc i'w graffu 6

Gwaith Craffu yn ystod 2024/25 10

Craffu a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor yn ystod 2024/5 11

Galw penderfyniadau'r Cabinet i mewn 14

Canlyniadau cadarnhaol y broses graffu 15

Pwyllgor Craffu Cymunedau 17

Pwyllgor Craffu Partneriaethau 25

Pwyllgor Craffu Perfformiad 33

Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 39

Ceisiadau Craffu gan Drigolion 43

Sut gall trigolion gymryd rhan yn y broses Graffu? 43

Ffurflen Gais Craffu 47

## Beth yw Craffu?

Mae craffu'n rhan allweddol o strwythur gwleidyddol y Cyngor. Mae nifer o benderfyniadau pwysig y Cyngor yn cael eu gwneud gan y Cabinet, sef grŵp o naw Cynghorydd y mae'r Cyngor Sir wedi rhoi ei bwerau iddynt i wneud penderfyniadau am bolisïau a gweithdrefnau ar ei ran.

Daw'r term 'scrutiny' yn Saesneg o'r gair Lladin 'scrutinium / scrutari' sy'n golygu 'chwilio'. Yng nghyd-destun Llywodraeth Leol, rôl y Pwyllgorau Craffu yw archwilio ac ymchwilio i bolisïau a phenderfyniadau, er mwyn asesu a ellid eu gwella neu eu cryfhau i ddarparu gwell gwasanaethau i drigolion ac ymwelwyr â Sir Ddinbych. Cyfeirir at y Pwyllgorau Craffu yn aml fel 'cyfaill beirniadol' y Cyngor, a'u pwrpas yw darparu beirniadaeth adeiladol er mwyn mynd ati'n barhaus i geisio gwella gwasanaethau, sicrhau gwell penderfyniadau a gwireddu gwell canlyniadau. Dyma'r egwyddorion sy'n sail i'r broses Graffu:

**Atebolrwydd**: dwyn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau

**Tryloywder**: sicrhau bod gwybodaeth am benderfyniadau a gwasanaethau ar gael yn gyhoeddus

**Cyfranogiad**: gadael i fudd-ddeiliaid gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau

**Her adeiladol**: herio'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn gadarn heb fod yn ymosodol

**Cynnwys y cyhoedd**: drwy gyfarfodydd, ymgynghoriadau ac adborth

**Prosesau craffu annibynnol**: sicrhau bod prosesau craffu'n cael eu cynnal gan Gynghorwyr sydd â meddylfryd annibynnol

**Gwelliant**: defnyddio prosesau craffu i sbarduno gwelliant yn y gwasanaethau a ddarperir gan lywodraeth leol

**Ni all** Pwyllgorau Craffu wneud penderfyniadau, ond gallant ddylanwadu ar bolisïau, adolygu penderfyniadau a wneir gan y Cabinet a Swyddogion, gwneud argymhellion, ac archwilio amrywiaeth o bynciau sy'n effeithio ar drigolion, busnesau lleol ac ymwelwyr â'r sir.

## Craffu ar Waith

Dylai craffu weithio mewn ffordd ddiduedd bob amser. Ni ddylai gwleidyddiaeth plaid ddylanwadu arno, a dylai ganolbwyntio ar wella bywydau trigolion a sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer ardal y sir.

Mae gan Bwyllgorau Craffu rôl weithredol i'w chwarae mewn datblygu polisïau ac adolygu perfformiad. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb i ddwyn y Cabinet ac eraill sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif am y penderfyniadau y maent yn eu gwneud.

Os yw Pwyllgor Craffu o'r farn y dylid edrych yn fanylach ar fater cyn rhoi penderfyniad ar waith, gall ofyn i'r mater gael ei adolygu dan y weithdrefn "Galw i Mewn" a fydd yn galluogi Pwyllgorau Craffu i lunio cynigion amgen.

## Sut mae Craffu'n gweithio yn Sir Ddinbych?

Mae'r Pwyllgorau Craffu'n gweithio fel 'cyfaill beirniadol' i arweinyddiaeth y Cyngor, yn sbarduno gwelliannau nid yn unig i'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor ei hun, ond hefyd i wasanaethau a ddarperir mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus eraill yn yr ardal, a hynny drwy roi llais i bryderon y cyhoedd.

Cyflawnir gwaith craffu'r Cyngor gan dri Phwyllgor Craffu thematig trawsbynciol sy'n cwrdd unwaith bob tua 7 wythnos, ac mae'r rhain yn cynnwys 11 Aelod Etholedig o bob un o'r pleidiau / grwpiau gwleidyddol sydd ar y Cyngor.

Y tri Phwyllgor yn Sir Ddinbych yw:

- Pwyllgor Craffu Cymunedau
- Pwyllgor Craffu Partneriaethau
- Pwyllgor Craffu Perfformiad

Wrth astudio materion addysg, mae cynrychiolwyr a benodir gan yr Eglwys yng Nghymru a’r Eglwys Gatholig, ynghyd â chynrychiolwyr a etholwyd gan riant-lywodraethwyr, hefyd yn gwasanaethu ar y Pwyllgorau. Mae gan y cynrychiolwyr hyn hawliau pleidleisio llawn wrth drafod materion sy’n ymwneud ag addysg.  Ar hyn o bryd, mae’r tair swydd sy’n cynrychioli rhiant-lywodraethwyr ar y Pwyllgorau Craffu yn wag. Os ydych chi’n rhiant-lywodraethwr yn un o ysgolion cynradd, uwchradd neu arbennig y Cyngor ac mae gennych chi ddiddordeb mewn cynrychioli’r sector ar Bwyllgor Craffu, neu os ydych chi’n adnabod rhywun a fyddai’n addas, cysylltwch â ni (mae’r manylion i’w gweld yn yr adran ‘Sut y gall trigolion gymryd rhan yn y broses Graffu’ tua diwedd yr adroddiad hwn).  Fe fyddem ni wir yn hoffi clywed gennych chi.

## Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu

Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y tri Phwyllgor Craffu yn gwasanaethu ar Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu'r Cyngor, ynghyd â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae’r Grŵp hwn yn cydlynu gwaith y Pwyllgorau Craffu. Mae ceisiadau i Bwyllgor Craffu ystyried eitemau, boed hynny gan Gynghorwyr Sir, swyddogion y Cyngor, trigolion, busnesau, sefydliadau / gwasanaethau cyhoeddus eraill neu’r cyhoedd, yn cael eu harchwilio gan y Grŵp hwn i bennu a ydynt yn bodloni’r meini prawf ar gyfer y broses Graffu, neu a fyddai’n well iddynt gael eu hystyried gan fforwm neu grŵp arall. Mae’r eglurhad ar y dudalen nesaf yn dangos y meini prawf a’r broses ar gyfer penderfynu a yw pwnc yn un addas i’w graffu ai peidio.

## Y broses ar gyfer penderfynu ar addasrwydd pwnc i'w graffu

### Cam un: ystyried y cais

Derbyn ffurflen gynnig neu gais ac ystyried yn ofalus y rhesymau dros y cais.

### Cam dau: a yw'r mater dan sylw yn bodloni'r meini prawf isod?

- Lles y cyhoedd: a yw'r mater yn destun pryder i drigolion?
- Y gallu i gael effaith: a all y broses Graffu ddylanwadu ar bethau a'u newid?
- Perfformiad: a yw hwn yn faes neu wasanaeth sy'n tangyflawni?
- Graddau: a yw'n effeithio ar nifer fawr o drigolion neu ardal ddaearyddol fawr?
- Dyblygu: a oes unrhyw un arall yn edrych arno?

**Os nad yw'n bodloni'r meini prawf hyn**, ni fydd angen i Bwyllgor Craffu gymryd unrhyw gamau pellach a bydd y cais yn cael ei atgyfeirio i rywle arall, neu gofynnir am wybodaeth ac fe'i rhennir gyda'r unigolyn neu'r sefydliad a gyflwynodd y cais.

**Os yw'n bodloni'r meini prawf hyn:**

**Cam tri: asesu a chynllunio** (y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu fydd yn gwneud hyn)

- Pennu pa ganlyniadau a ddymunir
- Pennu cwmpas a graddau'r gwaith craffu sydd ei angen a'r dull mwyaf priodol o'i gyflawni (h.y. adroddiad pwyllgor, ymchwiliad grŵp tasg a gorffen ac ati)
- Os dewisir defnyddio grŵp tasg a gorffen, pennu'r amserlen ar gyfer unrhyw ymchwiliad, pwy fydd yn rhan ohono, gofynion ymchwilio, cyngor arbenigol a'r tystion fydd eu hangen, trefniadau adrodd ac ati.

Yn ystod 2024/25, bu i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ystyried cyfanswm o 34 o geisiadau i graffu ar eitemau. O'r 34 o geisiadau hyn, cyflwynwyd:

- 17 gan Gynghorwyr Sir
- 8 gan swyddogion
- 6 gan unigolion neu sefydliadau allanol i'r Cyngor
- 3 gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ran y Pwyllgor.

Mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn sicrhau bod rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Craffu yn gytbwys ac nad yw'r pynciau'n cael eu dyblygu. Mae hefyd yn chwarae rhan mewn cefnogi a chryfhau swyddogaeth graffu'r Cyngor drwy ganfod arferion gorau, cynnig hyfforddiant neu gyfleoedd datblygu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Craffu, a helpu gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol i arferion craffu.

Wrth gyflawni ei rôl yn cefnogi swyddogaeth graffu'r Cyngor yn ystod 2024/25, bu i'r Grŵp drafod blaenoriaethau'r Cabinet ar gyfer y blynyddoedd i ddod gydag Arweinydd y Cyngor. Diben y drafodaeth hon oedd gweld sut y gallai'r Pwyllgorau Craffu gefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau hynny. Gyda'r nod o ddiogelu gwydnwch ariannol y Cyngor at y dyfodol, mae'r Grŵp wedi cymryd camau i gryfhau rôl y Pwyllgorau Craffu mewn perthynas â'r broses o bennu cyllideb flynyddol y Cyngor a monitro cyflawniad y Strategaeth a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae'r Pwyllgor Craffu Perfformiad bellach yn cael adroddiadau monitro'r gyllideb ar gyflawniad y Strategaeth yn rheolaidd. Mae heriau pennu cyllideb gytbwys yn wyneb gofynion sy'n cynyddu ac adnoddau ariannol sy'n lleihau yn parhau i fod yn benbleth i Awdurdodau Lleol. Gan fod pob gwasanaeth bellach wedi cael ei gwtogi i'r eithaf, er mwyn i'r Cyngor allu parhau i ddarparu gwasanaethau allweddol i drigolion, rhaid llunio modelau cynaliadwy newydd i ddarparu gwasanaethau. Gyda hyn mewn golwg, mae'r Cyngor wedi dechrau gweithio ar drawsnewid y ffordd y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu. Mae tair prif ffrwd waith wedi cael eu

clustnodi ar gyfer gwaith y Rhaglen Trawsnewid Busnes, ac mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi dyrannu rôl archwilio'r cynigion sy'n cyd-fynd â phob thema i'r Pwyllgorau canlynol:

- Dylanwadu ar Alw a Digidol – Pwyllgor Craffu Perfformiad
- Masnacheiddio a Menter – Pwyllgor Craffu Cymunedau
- Cydweithio a Phartneriaeth - Pwyllgor Craffu Partneriaethau

Bydd pob un o'r Pwyllgorau Craffu yn archwilio cynigion am brosiectau trawsnewid busnes wrth iddynt ddatblygu. Yn ystod gweddill cyfnod y weinyddiaeth hon, bydd y Pwyllgorau hefyd yn monitro'n fanwl y prosiectau hynny sy'n datblygu i fod yn fodelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau, er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r gwasanaethau y mae'r trigolion eu hangen a'u heisiau yn effeithiol.

Mewn ymateb i'r anawsterau a gafwyd wrth gyflwyno'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu newydd, bu'n rhaid i'r Grŵp ddelio â nifer o geisiadau yn galw am gynnal adolygiad o'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r gwasanaeth newydd. Mewn ymateb i'r ceisiadau hyn, argymhellodd y Grŵp y dylid sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i gynnal adolygiad o'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r gwasanaeth newydd. Yn dilyn ymgynghoriad gyda phob Cynghorwr Sir ar yr hyn y dylai'r adolygiad ei gynnwys, bu'r Grŵp yn rhan allweddol o'r gwaith o bennu ffiniau'r adolygiad a llunio cylch gorchwyl y Grŵp Tasg a Gorffen. Amcan yr adolygiad yw dangos pa wersi y gellir eu dysgu o'r prosiect hwn, a defnyddio'r gwersi hyn i lywio'r gwaith o gynllunio newidiadau mawr eraill i ddarpariaeth gwasanaethau y gellid bod angen eu gwneud yn y dyfodol.

Yn dilyn sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru, sef pwyllgor sydd â dyletswyddau rhanbarthol mewn perthynas â datblygiad economaidd, trafnidiaeth a chynllunio, ymgynghorwyd â'r Grŵp ar y ffordd orau o graffu ar y Pwyllgor hwn yn y dyfodol. Barn y Grŵp oedd mai sefydlu Cyd-bwyllgor Craffu yn cynnwys pob un o'r cyrff cyhoeddus sy'n cael eu cynrychioli ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o graffu ar agweddau strategol ei holl waith, ond y dylai Pwyllgor Craffu'r Awdurdod Lleol perthnasol

graffu ar unrhyw benderfyniadau y mae'n eu gwneud sy'n effeithio ar leoliadau penodol. Rhagwelir y bydd Cyd-bwyllgor Craffu o bob un o Awdurdodau Lleol gogledd Cymru yn cael ei sefydlu i graffu ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn y dyfodol agos.

Yn unol â'i rôl yn cefnogi ac atgyfnerthu'r swyddogaeth graffu, ystyriodd y Grŵp ganfyddiadau'r ymarfer Gwerthuso Craffu a gynhaliwyd tua diwedd blwyddyn y Cyngor 2023/24. Un o brif gasgliadau'r ymarfer gwerthuso hwn oedd y gydnabyddiaeth bod heriau'n parhau o ran cael trigolion a phobl ifanc i gymryd diddordeb yng ngwaith Pwyllgorau Craffu'r Cyngor, er gwaethaf pob ymdrech i geisio eu cynnwys. Mae'n bwysig sylweddoli nad yw'r her hon yn unigryw i Sir Ddinbych; mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol yn cael trafferth ennyn diddordeb y cyhoedd yn eu gwaith yn rheolaidd. Er hynny, pan fydd cynigion dadleuol yn cael eu hystyried neu pan fydd rhywbeth yn cael effaith niweidiol ar ddarparu gwasanaethau, fel y gwelwyd wrth gyflwyno'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu newydd, bydd y trigolion yn dangos diddordeb brwd mewn ymgysylltu â'r gwaith Craffu.

Mewn ymgais i ganfod ffyrdd o annog pobl ifanc i gyfrannu i ddemocratiaeth leol, bu i'r Grŵp gyfarfod â Phennaeth Addysg y Cyngor i drafod ffyrdd o godi ymwybyddiaeth wleidyddol ymysg myfyrwyr Sir Ddinbych, a'u cael i ymgysylltu ag Aelodau Etholedig lleol a'r Pwyllgorau Craffu ar bynciau sydd o ddiddordeb iddynt. Er mwyn ceisio creu awydd ymysg y myfyrwyr i gymryd rhan yng ngwaith y Pwyllgorau Craffu, roedd y Gwasanaeth Addysg yn bwriadu hybu ymwybyddiaeth wleidyddol a chyfleoedd i fyfyrwyr gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd yn ystod yr wythnos 'Mae eich Pleidlais yn Cyfrif' flynyddol. Ond o ystyried y pwysau ar amser myfyrwyr ac athrawon, blaenoriaethau addysgol, a gwerth neu fanteision ymgysylltu â democratiaeth leol i'r myfyrwyr, penderfynwyd y byddai angen rheoli graddau unrhyw ymgysylltiad yn y dyfodol yn effeithiol.

## Gwaith Craffu yn ystod 2024/25

Caiff pob un o gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu eu cynnal fel ‘cyfarfodydd hybrid’. Mae hyn yn gadael i aelodau’r Pwyllgor, y swyddogion a’r partneriaid neu’r sefydliadau allanol a wahoddwyd i gyfarfod Pwyllgor Craffu ddewis mynd i’r cyfarfod yn y lleoliad a bennwyd, neu ymuno o bell drwy fideo-gynadledda. Mae’r hyblygrwydd hwn yn lleihau’r pwysau ar bobl i deithio rhwng lleoliadau, yn rhyddhau mwy o amser i gyflawni gwaith arall yn ystod y dydd, ac yn helpu lleihau allyriadau carbon y sir drwy leihau teithiau diangen. Gan fod pob un o gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu yn cael eu gwe-ddarlledu’n fyw ar wefan y Cyngor bellach, a bod recordiad o’r gwe-ddarllediad ar gael ar y wefan ar ôl pob cyfarfod, gall trigolion naill ai ddilyn trafodaethau’r Pwyllgor yn fyw neu ddal i fyny gyda’r eitemau sydd o ddiddordeb iddynt yn nes ymlaen, pa un bynnag sydd fwyaf cyfleus iddynt.

Yn ystod 2024/25, dechreuodd y Pwyllgorau Craffu ar eu gwaith o archwilio camau cychwynnol y newidiadau i’r dulliau darparu gwasanaethau a roddwyd ar waith er mwyn lliniaru effaith y toriadau llym i’r gyllideb sy’n wynebu’r Awdurdod a sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus eraill. Megis dechrau mae’r gwaith hwn ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd y Pwyllgorau Craffu yn rhan fawr o’r gwaith sy’n cael ei wneud i drawsnewid darpariaeth gwasanaethau’r Cyngor dros y blynyddoedd nesaf.

Er bod gwaith y Pwyllgorau Craffu’n datblygu o un flwyddyn i’r nesaf, nid yw’n dod i ben ar ddiwedd un flwyddyn y Cyngor ac yn ailgychwyn eto ar ddechrau’r flwyddyn nesaf; dyma pam fod yr un meysydd gwaith, neu rai tebyg, yn codi’n rheolaidd yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu. Mae craffu yn broses barhaus, nid yn archwiliad untro o bwnc penodol. Mae’n cynnig cefnogaeth barhaus i’r Cyngor gyda’r nod o ddarparu gwasanaethau o safon i drigolion, gan addasu i ofynion ac anghenion newidiol.

## Craffu a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor yn ystod 2024/25

Cytunwyd ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor 'Y Sir Ddinbych a Garem' a'i flaenoriaethau ar gyfer 2022 – 2027 ym mis Hydref 2022, ac mae'r Cynllun yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni er budd trigolion a chymunedau lleol dros y pum mlynedd nesaf. Yn wyneb cyfyngiadau ariannol a llai a llai o adnoddau staffio, cymeradwyodd y Cyngor Sir Gynllun Corfforaethol diwygiedig ar gyfer 2002 i 2027 ym mis Chwefror 2024. Mae'r Cynllun diwygiedig hwn yn cynnwys chwe Thema Gorfforaethol bellach, yn hytrach na'r naw gwreiddiol, ac mae'r themâu canlynol:

- Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well
- Sir Ddinbych sy'n fwy teg, diogel a chyfartal
- Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

wedi'u hymgorffori yn y blaenoriaethau corfforaethol sy'n weddill. Bydd hyn yn sicrhau y bydd y Cyngor yn parhau i geisio cyflawni pob un erbyn diwedd ei gyfnod, ond fel rhan o'i waith o ddydd i ddydd yn hytrach na fel amcanion ar eu pennau eu hunain. Rhestrir y Blaenoriaethau Corfforaethol diwygiedig ar gyfer tymor y Cyngor 2022 - 2027 isod. O dan bob pennawd mae enghreifftiau o'r mathau o gamau gweithredu a fydd yn helpu cyflawni pob blaenoriaeth:

1. **Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sy'n bodloni anghenion pobl**:
   - Sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar dai o safon sy'n bodloni eu hanghenion.
   - Helpu pobl i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.
   - Gweithio i atal digartrefedd.

2. **Sir Ddinbych ffyniannus**
   - Cefnogi twf economaidd.
   - Datblygu cynllun i dyfu busnesau Sir Ddinbych yn y dyfodol.
   - Darparu cyngor a chefnogaeth i fusnesau dyfu a helpu cymunedau lleol i ffynnu.

- Cynnal rhwydwaith ffyrdd o safon a galluogi pobl i gael mynediad at addysg, cyflogaeth, gwasanaethau a gweithgareddau.
- Cefnogi cymunedau gyda gwell sgiliau a rhwydweithiau digidol.

**3. Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar**

- Darparu gofal cymdeithasol o safon uchel.
- Cefnogi pobl o bob oed i fyw'n dda a bod yn ddiogel.
- Helpu pobl i fyw'n annibynnol gan ddarparu cymorth yn ôl yr angen.
- Gweithio i gefnogi lles personol a chymunedol.
- Sicrhau bod pawb yn gallu cael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn naturiol ar bob cam yn eu bywydau.
- Cefnogi defnydd ehangach o'r Gymraeg a dathlu diwylliant Cymru.
- Gweithio ar fynd i'r afael â'r annhegwch a'r tlodi y mae ein cymunedau'n eu hwynebu.

**4. Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu**

- Cefnogi rhieni a phant ifanc yng nghamau cynnar eu datblygiad.
- Sicrhau bod pawb yn cael cyfleoedd teg i ddysgu.
- Darparu adeiladau a chyfleusterau o safon sy'n cefnogi dysgu a chymunedau llewyrchus.
- Helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd, gwirfoddoli a dod o hyd i swyddi da.

**5. Sir Ddinbych wyrddach**

- Dod yn sefydliad ecolegol gadarnhaol a di-garbon net erbyn 2030.
- Gofalu am yr amgylchedd naturiol a'i wella.
- Gweithio gyda chymunedau i ymdopi ag effeithiau newid hinsawdd a'u lleihau.
- Gwella cyfraddau ailgylchu a lleihau gwastraff.
- Cefnogi ein hisadeiledd gwyrdd.

**6. Cyngor a reolir yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad**

- Sefydlu diwylliant cadarnhaol o uchelgais, tryloywder a gwelliant.
- Datblygu perthynas agos llawn ymddiriedaeth rhwng ein staff, Aelodau Etholedig a'n cymunedau.
- Sicrhau bod y Cyngor yn cael ei reoli'n dda ac yn rhoi gwerth da am arian.
- Sicrhau bod Cyngor Sir Ddinbych yn gyflogwr da ac yn lle gwych i weithio.

Mae'r Cyngor yn ffodus bod ei strwythur Pwyllgorau Craffu thematig yn cynnig digon o hyblygrwydd i alluogi unrhyw un o'r Pwyllgorau i archwilio agweddau amrywiol ar gynnydd yr Awdurdod o ran cyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol. Mae'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn monitro cynnydd cyffredinol y Cyngor wrth gyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

Mae cynnydd y Cyngor o ran cyflawni themâu unigol, yn ogystal â mentrau neu wasanaethau penodol sy'n cyfrannu mewn rhyw ffordd i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol, yn cael eu craffu a'u monitro'n barhaus drwy gydol bywyd y Cynllun. Mae amlder y gwaith craffu yn cael ei bennu gan y cynnydd a wnaed i gyflawni'r themâu neu bryderon a godwyd mewn perthynas ag agweddau penodol ar y gallu i'w cyflawni.

## Galw penderfyniadau’r Cabinet i mewn

Dim ond unwaith yn ystod 2024/25 y defnyddiwyd Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor. Roedd hyn yn ymwneud â phenderfyniad a wnaeth Cabinet y Cyngor mewn perthynas â’r ‘Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy’. Ystyriodd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau y penderfyniad a alwyd i mewn i’w graffu ar y sail a roddwyd am ei alw i mewn i’w adolygu, sef nad oedd ymgynghoriad digonol wedi’i gynnal ag ysgolion lleol, trigolion, y gymuned, sefydliadau cenedlaethol, nag Aelodau Etholedig a oedd yn cynrychioli’r ardal, cyn penderfynu newid defnydd cae chwarae ysgol/cymunedol er mwyn codi adeilad newydd ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn.

Cafodd tystiolaeth a dadleuon eu clywed o blaid ac yn erbyn y cyfiawnhad y tu ôl i’r penderfyniad. Fodd bynnag, yn dilyn ystyriaeth fanwl, penderfynodd y Pwyllgor bod penderfyniad y Cabinet yn un dilys, felly nid oedd angen ei gyfeirio’n ôl at y Cabinet i ailedrych arno.

**Canlyniadau cadarnhaol y broses graffu**

Un o brif amcanion y broses graffu yw ychwanegu gwerth a cheisio sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gan y Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Ddinbych ac yn ymweld â'r Sir. Mae disgwyl i'r Pwyllgorau Craffu ddangos tystiolaeth o'r buddion y maent wedi'u hychwanegu at y broses o wneud penderfyniadau a sut mae'r buddion hynny'n amlygu eu hunain mewn canlyniadau gwell i drigolion a busnesau'r sir. Ar y cyfan, mae'n anodd dangos tystiolaeth o fuddion o'r fath, ond amcan cyffredinol y broses Graffu yw cefnogi gwell penderfyniadau sydd yn eu tro yn darparu gwell gwasanaethau. Felly, gorau po gyntaf y bydd y Pwyllgorau Craffu yn ymwneud â'r broses gwneud penderfyniadau, a chyfeirir at hyn fel arfer fel 'craffu cyn gwneud penderfyniad'.

Mae craffu cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw gynigion yn rhoi mwy o amser i aelodau'r Pwyllgor Craffu lunio a dylanwadu ar benderfyniadau a ddylai arwain at wneud penderfyniadau gwell ar sail tystiolaeth, a fydd yn darparu gwell canlyniadau i bawb yn eu tro. Yn ystod cyfnodau o gyni cyllidol, mae'n arbennig o bwysig cynnwys y Pwyllgorau Craffu cyn gynted ag y bo modd wrth bennu sut y bydd y Cyngor yn cyflawni ei rôl wrth ddarparu gwasanaethau, gan y gall weithredu fel eiriolwr a llais y trigolion wrth lunio modelau darparu gwasanaeth yn y dyfodol.

## Pwyllgor Craffu Cymunedau



Y Cynghorydd  Karen Edwards **(Cadeirydd)** **(Is-gadeirydd** - gwag**)**

Gwasanaethodd y Cynghorydd Huw O Williams fel Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau tan fis Mawrth 2025, pan benodwyd y Cynghorydd Karen Edwards, sef yr Is-gadeirydd cyn hynny, yn Gadeirydd.

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Cymunedau, ei raglenni a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor Craffu Cymunedau'n archwilio materion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gymunedau lleol a bywydau dyddiol y trigolion. Gall y rhain fod yn faterion o fewn rheolaeth uniongyrchol y Cyngor neu'n agweddau ar fywyd dyddiol y gall y Cyngor ddylanwadu arnynt.

Roedd yr eitemau y craffwyd arnynt gan y Pwyllgor yn 2024/25 i gyd yn ymwneud ag o leiaf un o'r Blaenoriaethau Corfforaethol sy'n cyfrannu at yr ymrwymiad i gyflawni'r 'Sir Ddinbych a Garem' dan y Cynllun Corfforaethol.

Roedd blaenoriaeth cael tai o safon sy'n bodloni anghenion pobl yn codi'n rheolaidd ar raglen y Pwyllgor. Gwnaed cryn dipyn o gynnydd gyda'r gwaith o drosglwyddo'r **Gwasanaeth Un Llwybr Mynediad at Dai** oddi wrth y darparwr a arferai gael ei gomisiynu, sef Cyngor Sir y Fflint, yn ôl yn fewnol. Llwyddwyd i gyfuno systemau TGCh rhwng Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, sy'n ei gwneud yn bosib

adolygu data byw ar y pwynt cyswllt, ac yn galluogi partneriaid i gynnig eiddo i gwsmeriaid ar sail eu hanghenion a'u safle o fewn eu band blaenoriaeth yn amserol.

Roedd y gwasanaeth yn rhedeg yn arbennig o dda ac rydym bellach wedi cyrraedd y targed o 28 diwrnod rhwng cais ac asesiad - roedd yn arfer cymryd rhwng 3 a 4 mis. Sicrhawyd y Pwyllgor bod y gwaith o ail-ddylunio darpariaeth y gwasanaeth Un Llwybr Mynediad at Dai yn perfformio'n dda ac yn bodloni disgwyliadau.

Yn ogystal, adolygwyd **Cynllun Gweithredu Strategaeth Tai a Digartrefedd Sir Ddinbych**, a oedd yn pennu gweledigaeth a nodau'r Cyngor ar gyfer tai yn y Sir yn ystod y cyfnod rhwng 2021 a 2026. Roedd y cynllun yn cynnwys 42 o gamau gweithredu, ac roedd dros eu hanner wedi cael eu cyflawni, gyda'r gweddill yn cael eu rheoli ac ar y trywydd cywir i gael eu cwblhau yn ystod oes y Strategaeth.

Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn clywed sut roedd y newid mewn rheoliadau mewn perthynas â'r broses rhybudd troi allan dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) wedi effeithio ar y Gwasanaeth. Roedd nifer o landlordiaid preifat wedi gadael y farchnad dai. O ganlyniad, gwelwyd cynnydd mawr yn nifer yr aelwydydd sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref i'r Cyngor am eu bod wedi colli eu llety rhent.

Dysgodd y Pwyllgor bod gan y Gwasanaeth Digartrefedd bortffolio o eiddo ar brydles – Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, eiddo cymunedol a'r sector rhentu preifat. O bryd i'w gilydd, roedd llety rhent preifat yn cael eu caffael ac ar adegau prin, byddai'r Gwasanaeth yn ystyried prynu hen dai Cyngor pan oeddent ar y farchnad agored. Roedd hyn yn digwydd yn enwedig os oedd yn fanteisiol i'r Awdurdod eu prynu, h.y. os oedd yr eiddo yn un o dai pâr neu'n fflat mewn bloc o fflatiau roedd yr Awdurdod eisoes yn berchen arnynt, gan y gellid rheoli'r adeilad cyfan yn fwy effeithlon.

I'r gwrthwyneb, er bod y Gwasanaeth yn gyndyn o werthu unrhyw eiddo yn ei bortffolio, clywodd y Pwyllgor mewn cyfarfod arall ei bod weithiau'n gwneud synnwyr yn economaidd i werthu eiddo mewn ardaloedd heb alw mawr am dai neu pan oedd angen buddsoddi arian sylweddol er mwyn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru. Dim ond pan oedd pob ffordd bosib o gadw eiddo wedi methu y byddai penderfyniad i'w werthu'n cael ei wneud.

Roedd yna ymrwymiad i barhau i adnewyddu'r stoc tai er mwyn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru. Er bod y buddsoddiad hwnnw o fudd i denantiaid, roedd yn ychwanegu at bwysau cyllidebol y Gwasanaeth. Er y diben hwnnw, bu i adroddiad **Pennu Rhenti Tai a Chyllidebau'r Cyfrif Refeniw Tai 2025/26** sicrhau'r Pwyllgor o'r canlynol: bod y cynnydd arfaethedig mewn rhent yn llai na'r uchafswm posib; ei fod yn fforddiadwy i denantiaid, a bod Sir Ddinbych yn un o'r siroedd a sgoriodd uchaf yng Nghymru mewn Arolwg Boddhad Tenantiaid o Werth am Arian a'r gwasanaeth cyffredinol a dderbyniwyd.

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiadau rheolaidd gan y Gwasanaethau Tai, a chawsant eu sicrhau o'u hymrwymiad i ddarparu tai o ansawdd i'w denantiaid.

Yn dilyn ei ymrwymiad i Sir Ddinbych Wyrddach ym mis Mehefin 2024, dechreuodd y Cyngor gyflwyno ei **Wasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu** newydd. Cafodd y system newydd ar gyfer casglu ac ymdrin â gwastraff domestig ei chyflwyno ar draws y sir ar yr un pryd ac o ganlyniad, dyma oedd y newid mwyaf i wasanaeth gan y Cyngor ers ei sefydlu ym 1996.

O fewn yr ychydig wythnosau cyntaf, daeth i'r amlwg bod nifer fawr o gasgliadau gwastraff domestig yn cael eu methu neu'n hwyr yn aml. Roedd nifer y cwynion a wnaed gan drigolion i'r Ganolfan Gyswllt a'r Aelodau Lleol yn ddigynsail.

Ym mis Hydref 2024, hysbyswyd y Pwyllgor mai craidd y broblem oedd nad oedd y gwasanaeth yn cynnwys digon o rowndiau i gasglu o 46,000 o eiddo bob wythnos. Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet am adnoddau ariannol ychwanegol, gwnaed trefniadau i ddarparu gwasanaeth mwy cynaliadwy yn yr hirdymor drwy ddarparu 8 cerbyd ychwanegol a recriwtio gyrwyr a llwythwyr ychwanegol, yn ogystal ag aildrefnu'r rowndiau casglu.

Mewn **adolygiad o gynnydd y gwasanaeth ailgylchu a'r swyddogaeth wastraff gysylltiedig** yng ngwanwyn 2025, hysbyswyd y Pwyllgor y bu'n rhaid newid trefniadau 36 eiddo i gael **'Casgliadau Pen Lôn'** wrth ddylunio'r rowndiau newydd.

Ni sicrhawyd y Pwyllgor bod digon o gynnydd wedi'i wneud o ran rhoi'r camau ychwanegol arfaethedig a alluogwyd gan yr adnoddau ariannol ychwanegol ar waith, na bod y newid yn y gwasanaeth wedi cyflawni'r nodau gofynnol.

Roedd y Pwyllgor yn poeni bod diffyg cyfathrebu rhwng y Gwasanaeth a'r Aelodau wedi bod yn broblem barhaus wrth gyflwyno'r gwasanaeth, a cheisiodd ymrwymiad i wella hyn wrth symud ymlaen.

Ar yr un thema o Sir Ddinbych Wyrddach, bu i'r Pwyllgor adolygu **Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL)** Sir Ddinbych, sef adroddiad cynhwysfawr a oedd yn cynnwys manylion am sut roedd Uchelgais Gogledd Cymru wedi rheoli contract gydag ymgynghorwyr i ddatblygu'r CYAL ar gyfer Sir Ddinbych a siroedd eraill gogledd Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd y cynlluniau dan berchnogaeth pob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Eu nod oedd bod yn adnodd arweiniol ar y ffordd orau o weithio tuag at system ynni wedi'i datgarboneiddio'n llawn erbyn 2050. Bydd pob CYAL yn cael eu cydgrynhoi i lywio datblygiad y Cynllun Ynni Cenedlaethol.

Roedd y Tîm Coed hefyd yn gweithio tuag at fod yn Gyngor ecolegol gadarnhaol a di-garbon net, a bu iddo gyflwyno ei **Gynllun Cynnal a Chadw a Rheoli Coed** i'r Pwyllgor. Parhaodd arolygon blynyddol o goed ynn (am arwyddion o glefyd coed ynn) i gael blaenoriaeth ar dir y Cyngor a'r tir ger y rhwydwaith priffyrdd. Gwnaed pob ymdrech i gadw coed ynn, a dim ond ar ôl i bopeth arall fethu y byddent yn cael eu torri.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod y Tîm Coed wedi cynnig cyngor ac arweiniad i amrywiol wasanaethau eraill sydd â chyfrifoldeb rheoli coed – y Gwasanaeth Cefn Gwlad, Addysg, Priffyrdd, Tai, Gwasanaethau Stryd a Chynllunio. Un cam gweithredu o fewn y Strategaeth Hinsawdd a Natur (2021/22 i 2029/30) oedd uchelgais i gynyddu amsugniad carbon y Cyngor ym Mlynyddoedd 4 i 6 (2024/25 i 2026/27), gan gynhyrchu a gweithredu Strategaeth Coed a Choetir i helpu sicrhau bod gofal coed yn cael ei gydlynu a'i safoni ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor. Gwnaeth y Pwyllgor gais i hysbysu'r Aelodau Lleol pan oedd gwaith cynnal a chadw coed am gael ei wneud yn eu wardiau.

Fel y soniwyd yn flaenorol, roedd gan y Gwasanaeth Cynllunio, yn enwedig y swyddogaeth cydymffurfio â rheolau cynllunio, rôl i'w chwarae o ran rheoli coed a nifer o agweddau eraill sy'n cyfrannu at Sir Ddinbych Wyrddach. Fodd bynnag, cwestiynodd adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gynaliadwyedd y swyddogaeth at y dyfodol.

Nodwyd nad oedd gan y Cyngor swyddogion cydymffurfio â rheolau cynllunio dynodedig ar y pryd, a arweiniodd at ôl-groniad o achosion a oedd yn sylweddol fwy na rhai'r Awdurdodau cyfagos. Nid oedd y Cyngor yn bodloni'r disgwyliadau a bennwyd yn y **Siarter Cydymffurfio â Rheolau Cynllunio** presennol. Felly, cynigiwyd diwygiadau i'r siarter a fyddai'n lleihau lefel y gwasanaeth a gynigir gan swyddogaeth cydymffurfio â rheolau cynllunio'r Cyngor i'r lefel isaf a ganiateir yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau ymarfer perthnasol.

Awgrymodd y Pwyllgor y dylid rhoi blaenoriaeth i recriwtio i'r ddwy swydd cydymffurfio â rheolau cynllunio wag. Bu iddynt gefnogi fersiwn ddiwygiedig y Siarter Cydymffurfio â Rheolau Cynllunio, gan wneud cais i bob Aelod Lleol gael crynodeb o'r holl rybuddion gorfodi a gyflwynir yn eu wardiau o hyn ymlaen. Dylid darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau Lleol ar gynnydd a chanlyniadau'r rhybuddion hyn, gan sicrhau eu bod yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiad neu benderfyniad.

Roedd swyddi gwag a phroblemau recriwtio wedi bod yn thema gyffredin yn yr Awdurdod (yn yr un modd ag Awdurdodau Lleol eraill yn genedlaethol). Nodwyd hyn fel un o'r rhesymau dros yr oedi yn y cynnydd ar gyflawni rhai o'r camau gweithredu a restrwyd ym mlwyddyn gyntaf y **Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio**. Hysbyswyd y Pwyllgor bod deunyddiau wedi'u hailgylchu'n cael eu defnyddio pryd bynnag y bo modd wrth osod arwyneb newydd er mwyn defnyddio cyn lleied ag sy'n bosib o agregau crai, ac roedd ychwanegu mwy o fannau gwefru Cerbydau Trydan yn y meysydd parcio sy'n eiddo i'r Cyngor yn un dyhead. Roedd y potensial i gyflwyno cynllun peilot i gynnig lle i gartrefi modur/faniau gwersylla mewn rhai lleoliadau wedi cynyddu ers y cynlluniau gwreiddiol, o gynnig lle parcio dros nos yn unig i ystyried cynnwys cyflenwad dŵr ffres, cyflenwad trydan a chyfleusterau gwaredu dŵr gwastraff. Rhagwelwyd y byddai hyn yn cefnogi twristiaeth a'r flaenoriaeth graidd o greu Sir Ddinbych Ffyniannus.

Gan barhau gyda'r thema honno, cynigiodd adroddiad diweddaru ar **Raglen Adfywio ac Uwchgynllun Glan Môr y Rhyl** nod gobeithiol i Rhyl gyrraedd y pwynt lle na fyddai angen ymyrraeth y sector cyhoeddus mwyach, gyda'r Rhyl yn dod yn dref sy'n denu buddsoddiad y sector preifat.

Hyd yma, mae Rhaglen Adfywio’r Rhyl wedi canolbwyntio’n bennaf ar brosiectau cyfalaf i ddatrys problemau materol ac amgylcheddol er mwyn annog twf economaidd a swyddi newydd. Dyma rai o’r prosiectau sydd ar y gweill:

- Cynllun y promenâd (cam 1) i helpu ailgysylltu pen uchaf y Stryd Fawr â’r traeth;
- Prosiect Parc Poced Canol y Dref (gweddnewid safle diffaith yn rhan ddeniadol o’r parth cyhoeddus);
- Prosiect Parth Cyhoeddus Canol y Dref, sy’n canolbwyntio ar wella’r Stryd Fawr a’r cyffiniau; a
- Pharth Cyhoeddus Marchnad y Frenhines, sydd â’r bwriad o wella’r ardal y tu allan i’r farchnad a helpu creu cyfleuster trawsnewidiol y gall y dref ymfalchïo ynddo.

Yn y bôn, cynnig oedd Uwchgynllun Glan y Môr i ddatblygu pedwar o barthau gwahanol ar hyd Glan y Môr rhwng Parc Drifft a Splash Point. Byddai’r rhain yn barthau Lletygarwch, Hamdden Egnïol, Adloniant i'r Teulu a Pharth Dŵr.

Mynegodd y Pwyllgor y farn bod angen cynnal ymgysylltiad cyhoeddus ledled y sir i hyrwyddo adfywiad y Rhyl, gan annog cysylltu â threfi cyfagos Bae Cinmel a Thowyn fel rhan o’r Strategaeth Dwristiaeth. Gofynnodd y Pwyllgor am gael adroddiad diweddaru ar ôl i’r broses ymgysylltu ddod i ben ac i Gynllun Gweledigaeth y Rhyl gael ei lunio.

Parhaodd yr Awdurdod â’i adolygiad o gyfleusterau cyhoeddus ar ôl cynnal Asesiad o’r Angen am Doiledau Lleol, ynghyd ag ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd ar sail Asesiad o Angen Dros Dro. Cyflwynodd y Gwasanaeth **Strategaeth Doiledau Lleol Ddrafft** i’r Pwyllgor, a ddaeth i’r casgliad nad oedd angen am gyfleusterau cyhoeddus yn Nyserth, Rhuddlan na Llanelwy.

Yn ystod y drafodaeth am yr eitem, awgrymodd y Pwyllgor y canlynol:

- Os nad oedd angen cyfleusterau cyhoeddus, dylid cynnal trafodaeth gyda’r Cyngor Dinas, Tref neu Gymuned am gyfraniad i agor yn dymhorol;
- Dylid adolygu taliad y Cynllun Toiledau Cymunedol;

- Nid yw anghenion trigolion yn cael digon o sylw, yn enwedig o ran iechyd, lles a hygyrchedd.

Mynegodd y Pwyllgor y farn fod lefel y pryder a godwyd gan aelodau a thrigolion yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch cynigion i gau rhai cyfleusterau cyhoeddus mor uchel nes eu bod yn teimlo y dylai toiledau fod yn ofyniad statudol, lle canfuwyd angen, a hwnnw wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru.  Bu iddynt argymell cynnal trafodaethau pellach gyda'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned i gefnogi'r cyfleusterau hyn yn eu cymunedau.

## Pwyllgor Craffu Partneriaethau



Y Cynghorydd  Joan Butterfield
**(Cadeirydd)**



Y Cynghorydd Pauline Edwards
**(Is-gadeirydd)**

Mae'r Pwyllgor hwn yn gyfrifol am archwilio effeithiolrwydd gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor, naill ai ar y cyd neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill o'r sector cyhoeddus, ac am sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n bodloni anghenion y trigolion.

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, ei raglenni a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor.

Bydd effaith pwysau'r gyllideb ar holl ddarparwyr y sector cyhoeddus yn ddiamau yn arwain at ddisgwyliadau uwch am fwy o drefniadau gweithio mewn partneriaeth yn rhanbarthol ac is-ranbarthol yn y dyfodol.  Wrth i weithio mewn partneriaeth barhau i ddatblygu, mae'r Pwyllgor wedi parhau â'i waith yn archwilio effeithiolrwydd amrywiol bartneriaethau a threfniadau gweithio ar y cyd sydd eisoes ar waith yn darparu gwasanaethau i drigolion a chymunedau.

Mae gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau allweddol y sector cyhoeddus, fel y Gwasanaeth Iechyd, yr Heddlu, Cyfoeth Naturiol Cymru ac ati, yn ogystal â'r sectorau preifat a gwirfoddol, yn hanfodol er mwyn i'r Cyngor allu cyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol yn llwyddiannus.

Er mwyn iddo wireddu ei uchelgais o gael Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar, mae'n hanfodol bod y Cyngor yn meithrin perthynas waith gadarn dda gyda'r Gwasanaeth Iechyd, yn ogystal â gyda'r sectorau preifat a gwirfoddol, mewn perthynas â darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a galluogi gwydnwch cymunedol. Fel ffordd o sicrhau bod pob sefydliad yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i gefnogi a gofalu am drigolion mwyaf diamddiffyn Sir Ddinbych, aeth y Pwyllgor ati i graffu ar y gwaith a wneir ar y cyd dan nawdd **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru** i hwyluso darpariaeth gwasanaethau cefnogi ac ymyrryd di-dor amserol i'r unigolion sy'n dibynnu arnynt.

Gwelwyd adroddiadau helaeth am y pwysau y mae'r Gwasanaeth Iechyd a'r sector gofal cymdeithasol yn ei wynebu yn y cyfryngau lleol a chenedlaethol. O ganlyniad i hyn, bu i Archwilio Cymru gynnal adolygiad o astudiaeth **Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng: Llif Allan o'r Ysbyty** drwy Gymru gyfan, yn ôl ardal Bwrdd Iechyd. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar y rhesymau pam fod pobl yn wynebu oedi wrth gael eu rhyddhau o'r ysbyty, ac effaith yr oedi hwnnw ar dderbyn unigolion i'r ysbyty o'r newydd a nifer y gwelyau cleifion mewnol a oedd ar gael i'r bobl a oedd eu hangen. Archwiliodd aelodau'r Pwyllgor y cynnydd a wnaed hyd yma yn Sir Ddinbych ac yn ardal gogledd Cymru gyfan gan y Bwrdd Iechyd a'r gwasanaethau Gofal Cymdeithasol wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr adolygiad hwn a gwella profiadau cleifion a'u teuluoedd o ddechrau defnyddio a gadael gwasanaethau sefydliadau gofal sylfaenol. Mae yna gyswllt cynhenid rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar sawl gwahanol lefel, felly maent yn dibynnu ar ei gilydd i ddarparu gwasanaethau o safon.

Ers cau **Ysbyty Brenhinol Alexandra** yn y Rhyl fel cyfleuster cleifion mewnol, mae'r Pwyllgor wedi cymryd diddordeb brwd a rhan bwysig mewn ceisio sicrhau bod gwasanaethau iechyd, gofal a lles allweddol yn cael eu darparu ar y safle. Ers nifer o flynyddoedd, mae wedi archwilio cynigion newidiol y Bwrdd Iechyd ar gyfer y safle. Er y cafwyd nifer o anawsterau ar hyd y ffordd, mae yna bellach elfen o obaith o'r newydd y bydd cyfleuster ysbyty newydd yn cael ei godi ar y safle. Mae disgwyl i'r cyfleuster hwn gynnwys darpariaeth gwelyau cleifion mewnol 'gofal yn nes at y cartref', uned mân anafiadau, ynghyd â gwasanaethau iechyd cymunedol eraill, a bod yn ganolfan ar gyfer mwy o weithio ar y cyd

â gwasanaethau eraill a'r sector gwirfoddol. Wrth i'r cynlluniau hyn ddatblygu dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod, mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i'w monitro'n agos gyda'r bwriad o sicrhau eu bod yn cefnogi ac yn ategu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a lles allweddol yn ardal y Rhyl, ond a fydd hefyd o fudd i Sir Ddinbych gyfan. Mae'r gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ill dau'n cefnogi'r unigolion mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau, felly er mwyn gwneud yn siŵr bod y trigolion hynny'n cael eu cadw'n ddiogel a'u hamddiffyn rhag niwed, mae'r Pwyllgor yn mynd ati bob blwyddyn i archwilio effeithiolrwydd y gweithdrefnau sydd ar waith mewn perthynas â **Diogelu Oedolion yn Sir Ddinbych**. Parhaodd â'r rôl hon yn ystod y flwyddyn drwy graffu ar adroddiad diogelu oedolion blynyddol 2023/24.

Mae dyletswydd ar Sir Ddinbych, yn yr un modd ag Awdurdodau Lleol eraill, i wneud yn siŵr bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i gadw trigolion a chymunedau'n ddiogel mewn argyfyngau neu gyfnodau o dywydd eithafol. Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn, mae'r Cyngor yn rhan o drefniant rhanbarthol o'r enw Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru. Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd y Pwyllgor **Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru 2023/24** ynghyd â'i feysydd ffocws arfaethedig ar gyfer 2024/25. O ganlyniad, cafodd y Pwyllgor hyder bod trefniadau priodol ar waith i fynd i'r afael ag argyfyngau, ac ymateb iddynt, pan fyddant yn codi, boed hynny'n lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. Mae'r mathau o ddigwyddiadau sy'n ysgogi mesurau ymateb i argyfwng a ddatblygwyd gan y gwasanaeth argyfwng rhanbarthol yn amrywio o lifogydd difrifol, achosion o dywydd garw, tanau gwyllt, a methiannau mewn isadeiledd hanfodol. Un digwyddiad o'r fath a alwodd am ymateb brys oedd Storm Babet ym mis Hydref 2023, a achosodd lifogydd mewn eiddo yn Sir Ddinbych. Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ymchwilio i achosion o lifogydd difrifol yn y sir a chyhoeddi **Adroddiad Ymchwiliad i Lifogydd Adran 19** yn nodi manylion ei ganfyddiadau ac unrhyw atebion a gynigir i leihau'r perygl o lifogydd eto yn y dyfodol. Caiff y mathau hyn o adroddiadau eu llunio ar y cyd ag awdurdodau rheoli peryglon eraill, fel Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad Adran 19 ar effeithiau Storm Babet a chefnogi'r gwelliannau a'r arferion gwaith diwygiedig a gynigiwyd i helpu lliniaru'r risg o broblemau tebyg yn y dyfodol.

Storm fawr arall a achosodd ddifrod ar hyd a lled y sir oedd Storm Christoph ym mis Ionawr 2021. Cyfrannodd y glaw trwm yn ystod y storm honno at gyflymder llif afon Clwyd, gan ei gwneud yn ddigon pwerus i danseilio **Pont Llannerch**, a achosodd iddi ddymchwel a chael ei hysgubo i ffwrdd. Roedd y bont hon yn gyswllt pwysig i gludiant a cherddwyr rhwng pentrefi Trefnant a Thremeirchion. Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor ynghyd â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru wedi bod yn archwilio dewisiadau i ailosod y cyswllt seilwaith allweddol hwn rhwng y ddwy gymuned. Clywodd y Pwyllgor fod nifer o ddulliau peirianyddol wedi cael eu harchwilio. Fodd bynnag, nid oedd posib cyflawni'r un o'r rhain heb fod perygl o amharu ar ddyfrhaen a ddefnyddir i dynnu dŵr yfed i gyflenwi 85,000 o gartrefi a busnesau yn y rhanbarth. Er iddo gydnabod effaith colli'r bont ar y cymunedau cyfagos, roedd y Pwyllgor o'r farn na allai gefnogi codi pont newydd a pheryglu cyflenwad dŵr yfed cymaint o gartrefi a busnesau yn barhaol, gan gadw mewn cof nad oedd unrhyw atebion hysbys i drwsio'r difrod y gellid ei achosi i'r ddyfrhaen. Fodd bynnag, am ei fod yn hynod ymwybodol o'r drafferth y byddai hyn yn ei achosi i drigolion a chymunedau lleol, gofynnodd y Pwyllgor i'r Cyngor wneud pob ymdrech i sicrhau cyllid i wella cysylltiadau cludiant eraill yn yr ardal er mwyn hwyluso cysylltedd rhwng cymunedau lleol.

Mae cysylltiadau cludiant integredig yn ogystal â dulliau cyfathrebu cyflym ac effeithiol yn gydrannau allweddol ar gyfer sicrhau datblygiad economaidd, sydd yn ei dro'n cyfrannu at ffyniant unigolion a'r ardal yn gyffredinol. Mae pob un o'r themâu hyn yn ymddangos yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Gyda'r nod o sicrhau bod Sir Ddinbych yn y sefyllfa orau i elwa ar fentrau trafnidiaeth rhanbarthol mawr, rhannodd y Pwyllgor ei safbwyntiau ag ymgynghoriad Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru am y **Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol**, sy'n ceisio ategu nodau cynlluniau trafnidiaeth lleol pob Awdurdod Lleol. Mae'r cynllun hwn hefyd yn ceisio cefnogi'r gwaith datblygu economaidd a ddatblygwyd gan Uchelgais Gogledd Cymru, a arferai gael ei alw'n Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, sydd wedi cael y dasg o greu ffyniant ar draws y rhanbarth drwy fewnfuddsoddi, cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a thyfu busnesau lleol. Yn yr un modd ag yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r Pwyllgor wedi cymryd rôl archwilio cynnydd a pherfformiad **Uchelgais Gogledd Cymru** wrth iddo gyflawni ei amcanion hirdymor. Yn ystod y flwyddyn

i ddod, bydd Uchelgais Gogledd Cymru'n dod yn un o is-bwyllgorau Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru. Rhagwelir y bydd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ei drefniadau craffu ei hun yn y dyfodol, a fydd yn golygu y bydd Cyd-bwyllgor Craffu ar wahân, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr craffu o bob un o'r Cynghorau sy'n aelodau o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, yn craffu ar agweddau rhanbarthol datblygu economaidd, trafnidiaeth a chynllunio. Er hynny, ni fydd hyn yn atal Pwyllgorau Craffu Sir Ddinbych rhag archwilio agweddau ar waith y Cyd-bwyllgor Corfforedig a fydd yn effeithio ar y Sir neu ardaloedd o'i mewn os dymunant wneud hynny.

Gyda thwristiaeth yn un o'r cyfranwyr mwyaf i economi'r Sir, cynhaliwyd trafodaethau rhwng y Pwyllgor, swyddogion y Cyngor a chynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru ar yr heriau a wynebir wrth geisio gwella ansawdd y dŵr ymdrochi oddi ar draethau'r Sir. Y gobaith yw y bydd yn bosib i rai o draethau Sir Ddinbych ennill neu adennill **Statws y Faner Las** yn y dyfodol.

Yn y blynyddoedd diweddar, mae nifer y trigolion a'r busnesau sy'n dewis gwneud eu gwaith bob dydd neu wneud cais am wasanaethau gan y Cyngor yn electronig wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r galw cynyddol am gyfleusterau cyfathrebu a thrafodion busnes digidol yn golygu bod rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddo wasanaethau digidol effeithiol ar waith i fodloni disgwyliadau'r trigolion a defnyddwyr eraill. Mewn ymgais i sicrhau bod y Cyngor yn bodloni anghenion cyfredol ac yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y galw cynyddol am wasanaethau digidol newidiol, archwiliodd y Pwyllgor gynnydd yr Awdurdod o ran cyflawni ei **Strategaeth Ddigidol** gyfredol, a gweld a oedd yn defnyddio argymhellion Archwilio Cymru mewn perthynas â'r strategaeth gyfredol i lywio'r dull o ddatblygu'r **Strategaeth Ddigidol newydd ar gyfer 2026 a thu hwnt.**

Bu i'r cynnydd yn y defnydd o dechnoleg ddigidol, trefniadau gweithio hybrid, a'r angen i'r Awdurdod leihau ei gostau cyffredinol arwain at adolygiad gan y Cyngor o'i anghenion swyddfa ac eiddo arall ar hyd a lled y Sir. Mewn ymgais i sicrhau bod gan y Cyngor y math cywir o ased yn y lleoliad cywir i ddarparu ei wasanaethau yn y dyfodol, bu iddo ddatblygu **Strategaeth Rheoli Asedau Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2024-29**. Cafodd aelodau'r

Pwyllgor gyfle i archwilio'r strategaeth hon a gwneud sylwadau arni cyn iddi gael ei chymeradwyo'n nes ymlaen gan y Cabinet.

Mae adeiladau ysgolion ymysg portffolio asedau'r Cyngor. Roedd yr unig benderfyniad Cabinet a alwyd i mewn i'w adolygu dan Weithdrefn Galw i Mewn y Cyngor yn ystod 2024/25 yn ymwneud â chynnig a oedd yn rhan o'r **Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy**. Roedd y penderfyniad penodol hwn yn ymwneud â chynlluniau i adeiladu cyfleuster newydd ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn yn Ninbych. Mae canlyniad y broses graffu mewn perthynas â'r penderfyniad a alwyd i mewn i'w adolygu i'w weld yn adran 'Galw Penderfyniadau Cabinet i Mewn' yr adroddiad hwn.

Y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yw Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn dynodedig y Cyngor yn unol â gofynion Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006. Wrth gyflawni'r rôl honno, bydd yn mynd ati bob blwyddyn i archwilio perfformiad **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych** wrth iddi gyflawni ei blaenoriaethau a'i chynllun gweithredu, yn ogystal â'r blaenoriaethau a'r meysydd ffocws a glustnodwyd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Wrth gyflawni'r rôl honno eleni, bu iddo wahodd cynrychiolydd Heddlu Gogledd Cymru i gymryd rhan mewn trafodaeth er mwyn i'r aelodau gael gwell dealltwriaeth o'r berthynas rhwng yr Heddlu, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Awdurdodau Lleol, ac asiantaethau/sefydliadau eraill yn y gwaith o atal trosedd ac ymyrryd.

Mae atal trosedd ac ymyrryd yn gydran allweddol ar gyfer datblygu cymunedau diogel, cryf a gwydn, lle mae'r hen a'r ifanc fel ei gilydd yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael cefnogaeth, yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn gallu byw bywydau llawn. Yn ogystal â chael Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y cyd ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych, mae gan y ddwy ardal sirol hefyd Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar y cyd. Yn dilyn adroddiad beirniadol ar y gwasanaeth hwn ar y cyd ym mis Mai 2024, lluniwyd cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi. Penderfynwyd cynnal cyfarfod anffurfiol ar y cyd rhwng Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Conwy a Phwyllgor Craffu Partneriaethau Sir Ddinbych ddechrau 2025, er mwyn mynd ati ar y cyd i archwilio'r cynnydd a wnaed hyd yma wrth sicrhau'r gwelliannau gofynnol a nodwyd gan y Rheoleiddiwr i'r gwasanaeth ymyrryd hanfodol hwn. Cytunodd aelodau'r ddau Awdurdod

bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth fynd i'r afael ag argymhellion y Rheoleiddiwr. Roeddent hefyd yn teimlo bod y dull o fonitro cyflawniad y cynllun gweithredu ar y cyd wedi gweithio'n dda, gan gytuno i gyfarfod eto ar ddechrau 2026 i archwilio ymhellach gynnydd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'i sefydliadau partner o ran cyflawni'r gwelliannau a nodwyd yn y cynllun gweithredu ac ystyried unrhyw welliannau pellach posib i'r gwasanaethau a ddarperir.

## Pwyllgor Craffu Perfformiad



Y diweddar Gynghorydd Hugh Irving
**(Cadeirydd)**



Y Cynghorydd Gareth Sandilands
**(Is-gadeirydd)**

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Perfformiad, ei raglenni a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor.

Mae gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o safon i drigolion a'i gefnogi i gyflawni ei Gynllun Corfforaethol. Yn ystod 2024/25, parhaodd â'i waith yn canolbwyntio ar berfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei wasanaethau dydd i ddydd, ei gynnydd hyd yma o ran gwireddu ei Gynllun Corfforaethol a'i uchelgais o fod yn Gyngor a reolir yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad.

Mae sicrhau a pharhau i ddarparu gwasanaethau o safon uchel pan fo'r costau a'r galw yn cynyddu a'r adnoddau ariannol sydd ar gael i ddarparu'r gwasanaethau hynny'n lleihau, yn hynod heriol. Er mwyn sicrhau y gall y Cyngor gyflawni ei rwymedigaethau a'i uchelgeisiau, yn ogystal â rheoli'r holl risgiau hysbys a allai effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau, mae'r Pwyllgor yn aml yn archwilio'r **Gofrestr Risg Gorfforaethol** i wneud yn siŵr bod mesurau priodol ar waith i reoli'r holl risgiau hysbys i ddarparu'r gwasanaethau yn effeithiol. Bu'r Pwyllgor yn archwilio'r cynnydd o ran cyflawni **Cynllun a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig** y Cyngor, diogelu **Gwydnwch a Chynaliadwyedd Ariannol** yr Awdurdod at y dyfodol, ynghyd â'r **Cynigion Pennu Cyllideb** blynyddol dros y flwyddyn, yn ogystal â'r cynnydd a wnaed hyd yma wrth gyflawni'r nodau a bennwyd yng **Nghynllun Corfforaethol**

y Cyngor. Yn ychwanegol, bu iddo archwilio **Hunanasesiad Blynyddol** yr Awdurdod o'i berfformiad wrth ddarparu ei wasanaethau a'i uchelgeisiau.

Mae'n arbennig o anodd cydbwyso'r galw cynyddol am wasanaethau o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael, yn enwedig yn y maes gofal cymdeithasol i blant ac oedolion lle mae'r anghenion y mae angen eu bodloni yn mynd yn fwyfwy cymhleth, ac mae hyn yn galw am gynllunio effeithiol ac arloesol. Wrth archwilio **Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol**, mae'r Pwyllgor yn cael gwybod am y pwysau y mae'r gwasanaethau hynny'n eu hwynebu a'r atebion creadigol a lunnir i ateb y gofynion hyn. Cafodd yr aelodau gyfle i ddylanwadu ar syniadau'r dyfodol am sut i ddarparu gwasanaethau drwy archwilio'r adroddiad hwn hefyd. Yn yr un modd, drwy archwilio **Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2023/24 Menter Cefndy**, cafodd gyfle i fonitro sut roedd y fenter unigryw hon yn cynnig gwaith gwerthfawr a chyfleoedd gyrfa gwerth chweil i rai o drigolion mwyaf diamddiffyn y Sir.

Mae ôl effeithiau pandemig Covid ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion, ac ar eu presenoldeb a'u hymddygiad yn yr ysgol mewn rhai achosion, yn ogystal â'u diddordeb mewn gweithgareddau addysgol, yn cael eu cydnabod yn eang fel maes pryder ledled Cymru a'r DU. Mae'r Pwyllgor yn hynod ymwybodol o'r pryderon hyn, felly bu iddo ymroi cryn dipyn o amser yn ystod y flwyddyn i archwilio materion sy'n ymwneud ag addysg. Ymysg y meysydd ffocws hyn roedd **Hyrwyddo Presenoldeb ac Ymgysylltiad yn yr Ysgol**, parhau i fynd ati i roi'r **Cwricwlwm i Gymru** ar waith, a'r gwaith ar **Drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol** mewn ysgolion, yn ogystal â'r cynlluniau arfaethedig i ddefnyddio'r **Cyllid Addysg Ychwanegol** a ddyrannwyd i'r Gwasanaeth Addysg fel rhan o Gyllideb y Cyngor 2025/26. Yn ogystal, parhaodd y Pwyllgor i fonitro cynnydd y Gwasanaeth Addysg wrth gyflawni'r gwaith trawsnewid o fewn y **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg** ym mhob un o ysgolion y Sir. Parhaodd hefyd i archwilio'r gwaith a wnaed gan bob budd-ddeiliad i gefnogi gwelliannau yn **Ysgol Crist y Gair**, gyda'r nod o'i dynnu allan o fesurau arbennig yn y pen draw. Bydd Estyn yn arolygu sut mae Awdurdodau Lleol yn darparu gwasanaethau i ysgolion o bryd i'w gilydd. Cafodd Gwasanaethau Addysg Sir Ddinbych eu harolygu gan Estyn ddiwethaf yn 2018. Yn dilyn arolygiadau o'r fath, bydd Cynllun

Gweithredu'n cael ei lunio i fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion a wnaed gan y Rheoleiddiwr. Mae'r Pwyllgor wedi bod wrthi'n monitro cyflawniad y cynllun gweithredu hwn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac eleni, cafodd ei fodloni fod pob cam gweithredu a gododd o **Arolwg Estyn 2018** wedi cael eu cyflawni.

Mae'r Pwyllgor yn mynd ati bob blwyddyn i archwilio perfformiad Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Sir yn unol â **Safonau a Pherfformiad Gwasanaethau Llyfrgell** Llywodraeth Cymru. Bu iddo barhau gyda'r arfer hwn yn 2024/25 drwy archwilio perfformiad y Gwasanaeth yn ystod 2023/24. Bydd effaith cwtogi oriau agor y Gwasanaeth ac effaith hynny ar ei berfformiad yn cael ei archwilio fel rhan o'r broses o adolygu perfformiad y Gwasanaeth yn ôl y safonau cenedlaethol ar gyfer 2024/25. Ni fydd y wybodaeth hon ar gael tan ddechrau 2026.

Y dilyn datgan **Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol** yn 2019, mabwysiadodd y Cyngor Strategaeth i ymrwymo i fod yn Awdurdod ecolegol gadarnhaol a di-garbon net erbyn 2030. Drwy wneud hynny, ymrwymodd i adolygu'r Strategaeth bob tair blynedd. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth ddiwygiedig, cafodd y Pwyllgor gyfle i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyn i'r Cyngor Sir gymeradwyo'r Strategaeth ddiwygiedig derfynol. O ganlyniad i'r broses hon, penderfynodd y Pwyllgor y byddai'n monitro cynnydd wrth gyflawni'r Strategaeth bob blwyddyn yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn dechrau yn ystod y flwyddyn i ddod.

Strategaeth a Chynllun Gweithredu drafft arall a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried oedd y **Strategaeth a Chynllun Gweithredu Economaidd** ar gyfer y cyfnod rhwng 2025 ac 2035. Yn dilyn ystyriaeth o'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu, teimlai'r Pwyllgor fod eu cynnwys yn cefnogi uchelgeisiau'r Cyngor o ran datblygiad economaidd a chyflawniad ei flaenoriaeth gorfforaethol o Sir Ddinbych ffyniannus.

Mae busnesau o bob maint, a hynny mewn ardaloedd trefol neu wledig, angen dull cyfathrebu cyflym ac effeithiol i drafod eu busnes yn ddi-oed a manteisio ar gyfleoedd busnes. Er mwyn ceisio sicrhau isadeiledd cyfathrebu cyflym, effeithiol a dibynadwy, mae'r Pwyllgor wedi parhau i gyfarfod â BT Openreach i sicrhau bod cymaint o eiddo busnes a phreswyl ag sy'n bosib mewn ardaloedd trefol a gwledig o'r Sir yn cael **Gwasanaethau**

**Rhyngrwyd a Theleffoni** o safon, ac i geisio sicrhau atebion ymarferol i broblemau cysylltedd pan fyddant yn codi. Mae'r cyfleustodau hyn yn hanfodol er mwyn darparu ffyniant economaidd, addysgol a chymunedol.

Yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, sefydlwyd ffrydiau cyllido newydd i gefnogi datblygiad busnes a chymunedol, yn ogystal â mentrau datblygu gwydnwch eraill. Roedd terfynau amser y ffrydiau cyllid cyntaf a sefydlwyd yn hynod dynn o ran gwneud cais am gyllid, datblygu'r prosiect a'i gyflawni. Defnyddiwyd y gwersi a ddysgwyd o wneud cais am gyllid ar gyfer y prosiectau hynny i ddatblygu methodoleg i'w defnyddio yn y dyfodol ar gyfer **Sefydlu Cyngor Sir Ddinbych mewn Sefyllfa Dda i Sicrhau Cyllid Gwerth Uchel ar ôl Brexit.** Archwiliodd y Pwyllgor y fethodoleg a ddatblygwyd i wneud yn siŵr ei bod yn addas ac yn effeithiol i helpu gwasanaethau a budd-ddeiliaid eraill i ymgeisio am amrywiol fathau o gyllid allanol wrth symud ymlaen. Bydd y math hwn o gyllid yn hollbwysig yn y dyfodol i helpu cefnogi darpariaeth gwasanaethau hanfodol.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y Pwyllgor i archwilio a monitro gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer **Recriwtio, Cadw a Chynllunio'r Gweithlu** er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi gallu'r Awdurdod i ddarparu ei amrywiaeth eang o wasanaethau'n gynaliadwy.

O ganlyniad i'r problemau a gafwyd wrth **Gyflwyno'r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Newydd**, cytunodd y Pwyllgor i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i archwilio beth ddigwyddodd a nodi'r gwersi a ddysgwyd o hyn. Nod yr ymarfer hwn yw defnyddio canfyddiadau'r adolygiad i lywio camau cynllunio unrhyw brosiectau trawsnewid busnes neu wasanaeth yn y dyfodol. Mae disgwyl i'r Grŵp Tasg a Gorffen gynnal ei adolygiad o fewn deuddeng mis, ac adrodd ar ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor rywbryd yn 2026.

Mae gan y Pwyllgor rôl bwysig o ran archwilio effaith toriadau i'r gyllideb ar drigolion, yn ogystal ag effeithiolrwydd newidiadau i wasanaethau ar ymdrechion y Cyngor i gynhyrchu incwm ychwanegol. Dechreuwyd ar elfennau o'r gwaith monitro cyllideb a thrawsnewid busnes yn ystod 2024/25, a bydd yn parhau dros weddill cyfnod y Cyngor. Fel rhan o'r gwaith hwn, aeth y Pwyllgor ati i asesu effeithiolrwydd y camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn i **Gynyddu Incwm o Feysydd Parcio** drwy gyfuniad o gyflwyno ffioedd mewn

meysydd parcio a oedd yn arfer bod am ddim, cynyddu'r ffioedd a godwyd eisoes mewn meysydd parcio eraill, ac ymestyn yr oriau codi tâl mewn meysydd parcio y mae'r Cyngor yn eu cynnal. Daeth yr asesiad a gynhaliwyd i'r casgliad nad oedd y mesurau a gyflwynwyd wedi gwireddu'r cynnydd a ragwelwyd mewn incwm. O ganlyniad, bydd strwythur ffioedd meysydd parcio newydd yn cael ei ddatblygu i gynyddu'r incwm hwn er mwyn i'r Cyngor allu talu costau cynnal a chadw'r cyfleusterau. Caiff y strwythur ffioedd meysydd parcio drafft newydd hwn ei gyflwyno i'r Cynghorwyr ymgynghori arno ddiwedd 2025.

Fel rhan o'r gwaith trawsnewid busnes, aeth y Pwyllgor ati i archwilio'n fanwl y cynigion a gyflwynwyd i sefydlu strwythur cwmni amgen ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden yn lle **Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig**. Nod y model newydd arfaethedig oedd sicrhau y darperir gwasanaethau hamdden o safon uchel yn y dyfodol. Fel rhan o'i waith craffu cyn penderfyniad, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o nifer o agweddau o fewn y cynnig cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ei gymeradwyo.

Wrth i flwyddyn y Cyngor 2024/25 ddirwyn i ben, galarodd y Pwyllgor farwolaeth ei Gadeirydd, y Cynghorydd Hugh Irving. Roedd y Cynghorydd Irving wedi cadeirio'r Pwyllgor ers 2022 ac wedi gwasanaethau fel Cadeirydd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu dros yr un cyfnod. Cafodd yrfa hir a disglair mewn bywyd cyhoeddus ac fe'i hystyriwyd gan nifer fawr yn Gynghorydd agos-atoch a pharod ei wasanaeth ac yn Gadeirydd Pwyllgor teg a diduedd. Bydd y Cyngor cyfan a thu hwnt yn teimlo ei golled, ond bydd y Pwyllgor yn benodol yn gweld eisiau ei ddoethineb, ei arweiniad a'i law gadarn wrth y llyw.

## Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Conwy a Sir Ddinbych (y Cyd-bwyllgor) gan y ddau Awdurdod yn ystod tymor y Cynghorau blaenorol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau statudol o graffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r Pwyllgor hwn yn cynnwys 16 o aelodau, 8 yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac 8 yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych. Mae cynrychiolaeth pob Cyngor ar y Cyd-bwyllgor yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol eu Cyngor. Mae cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor yn nodi y bydd y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd yn newid bob dwy flynedd rhwng aelodau etholedig Cynghorau Sir Ddinbych a Sir Conwy bob yn ail. Yn dibynnu ar dro pa Gyngor yw hi i Gadeirio’r Cyd-bwyllgor, caiff yr Is-gadeirydd ei benodi o blith cynrychiolwyr y Cyngor arall ar y Pwyllgor. 2024/25 oedd ail flwyddyn cyfnod Conwy i gadeirio’r Cyd-bwyllgor. Parhaodd y Cynghorydd Cheryl Carlisle yn ei rôl fel Cadeirydd, gyda’r Cynghorydd Gareth Sandilands o Sir Ddinbych yn Is-gadeirydd.

Bu i’r Cyd-bwyllgor gyfarfod unwaith yn ystod 2024/25, ac yn y cyfarfod hwnnw, trafododd gyda Phrif Weithredwr Tai Gogledd Cymru, sef un o’r unigolion a wahoddwyd i gyfrannu i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ei **ymrwymiad a’i gyfraniad i waith y BGC, yn ogystal â manteision cymryd rhan yng ngwaith y BGC iddo fel sefydliad**. Teimlai Tai Gogledd Cymru fod cael cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y BGC yn fanteisiol iddo fel sefydliad. Drwy’r BGC, llwyddodd i godi ei broffil yn y ddwy sir ac ymysg sefydliadau’r BGC, yn ogystal ag ehangu ei sylfaen wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael i drigolion. Defnyddiodd y wybodaeth a gafodd o gymryd rhan yng ngwaith y BGC i lywio blaenoriaethau mewnol a chynlluniau corfforaethol, a gwella ei allu i gyfeirio swyddogion a thenantiaid at wasanaethau a sefydliadau perthnasol am gymorth.

Mae gan y BGC ei Gynllun Lles Lleol ei hun. Mae holl themâu ac amcanion y Cynllun hwn yn ategu ac yn plethu gyda chynlluniau strategol pob Cyngor a sefydliad partner unigol. Gan fod dros flwyddyn wedi mynd heibio ers i’r BGC gymeradwyo ei Gynllun Lles 2023-2028, aeth y Pwyllgor ati, yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,

i archwilio perfformiad y BGC wrth roi ei Gynllun ar waith drwy ystyried **Adroddiad Blynyddol y BGC ar gyfer 2023-24**. Roedd y Cyd-bwyllgor yn fodlon bod y BGC wedi gwneud cynnydd gyda chamau cychwynnol y gwaith o gyflawni Cynllun Lles 2023-28, yn unol â'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf 2015. Cafodd ei galonogi hefyd o ddysgu y byddai'r BGC yn dechrau gweithio ar godi ei broffil ymysg trigolion yn ystod 2024-25, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'i fodolaeth, ei amcanion, a sut y gallent ryngweithio ag ef. Yn anffodus, bu'n rhaid canslo ail gyfarfod y Cyd-bwyllgor yn ystod 2024-25. Er hynny, bydd ei waith yn parhau yn 2025-26.

Mae'n bwysig pwysleisio mai dim ond cyfraniad y sefydliadau partner at waith y BGC y mae gan y Cyd-bwyllgor bŵer i'w graffu. Nid oes gan y Cyd-bwyllgor bwerau i graffu ar bolisïau'r sefydliadau unigol na'u perfformiad wrth ddarparu gwasanaethau y tu allan i'w rôl a'u cyfrifoldebau ar y BGC.

**Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych**





Y Cynghorydd Cheryl Carlisle
**(Cadeirydd)**

Y Cynghorydd Gareth Sandilands
**(Is-gadeirydd)**

**Aelodaeth**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

- Y Cynghorydd Cheryl Carlisle (Cadeirydd)
- Y Cynghorydd David Gerard Carr
- Y Cynghorydd Gareth Jones
- Y Cynghorydd Bernice McLoughlin
- Y Cynghorydd Stephen Anthony Price
- Y Cynghorydd Kay Redhead
- Y Cynghorydd Austin Roberts
- Y Cynghorydd John Roberts

**Cyngor Sir Ddinbych**

- Y Cynghorydd Joan Butterfield
- Y Cynghorydd Kelly Clewett
- Y Cynghorydd Pauline Edwards
- Y Cynghorydd Alan Hughes
- Y Cynghorydd Paul Keddie
- Y Cynghorydd Terry Mendies
- Y Cynghorydd Arwel Roberts
- Y Cynghorydd Y Cynghorydd Gareth Sandilands (Is-gadeirydd)

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at wybodaeth am y Cyd-bwyllgor, ei raglenni a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor

.

# Ceisiadau Craffu gan Drigolion

Ers nifer o flynyddoedd, mae Pwyllgorau Craffu Sir Ddinbych wedi gweithredu dull sefydledig sy'n galluogi trigolion i dynnu sylw'r Pwyllgor Craffu at faterion sy'n peri pryder. Caiff hyn ei hwyluso drwy lenwi Ffurflen Gais Craffu, sydd ar gael ar wefan y Cyngor neu gan y Cydlynwyr Craffu. Bydd ffurflenni sydd wedi'u llenwi yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu, yn yr un modd â cheisiadau a dderbynnir gan Gynghorwyr, swyddogion neu sefydliadau eraill, i'w hystyried ac i benderfynu a yw'r pwnc yn addas i'w archwilio gan un o'r Pwyllgorau Craffu, neu a fyddai'n fwy buddiol pe bai'r mater yn cael ei ystyried gan fforwm arall.

## Sut gall trigolion gymryd rhan yn y broses Graffu?

### Hoffech chi i'r Pwyllgorau Craffu edrych ar fater penodol?

Gallwch godi mater i'w ystyried gan un o Bwyllgorau Craffu Cyngor Sir Ddinbych drwy lenwi'r Ffurflen Gais Craffu (drosodd) neu drwy lawrlwytho'r ffurflen o wefan y Cyngor a'i chyflwyno dros e-bost. Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y tri Phwyllgor Craffu'n aelodau o'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu. Mae'r Grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i benderfynu sut i ddyrannu gwaith y Pwyllgorau Craffu, a byddant yn ystyried a ddylai unrhyw fater gael ei ystyried yn fanwl gan un o'r Pwyllgorau, neu a ddylid gweithredu mewn ffordd arall. Gall hyn amrywio o atgyfeirio mater i'r gwasanaeth sy'n gyfrifol, i graffu'n llawn ar y mater gan un o'r Pwyllgorau Craffu, neu hyd yn oed sefydlu 'Grŵp Tasg a Gorffen' arbenigol i archwilio ac adrodd ar fater penodol.

### Hoffech chi fynd i un o gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu?

Mae cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu Cyngor Sir Ddinbych ar agor i'r cyhoedd fel arfer, ac anogir trigolion Sir Ddinbych a'r cyhoedd i'w mynychu neu wylio'r gweddarllediad ar wefan y Cyngor. Mae rhestr o gyfarfodydd Pwyllgorau Craffu'r dyfodol a'r materion i'w trafod ar gael ar y dudalen 'Craffu' ar wefan y Cyngor.

Os hoffech chi gymryd rhan yn y drafodaeth am fater penodol, bydd angen caniatâd Cadeirydd y Pwyllgor arnoch chi. Gallwch drefnu hyn drwy gysylltu ag un o'r Cydlynwyr Craffu, y mae eu manylion cyswllt i'w gweld drosodd.

O bryd i'w gilydd, bydd rhai eitemau sy'n cael eu trafod gan Bwyllgor yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol na ellir ei thrafod yn y fforwm cyhoeddus arferol. Bydd unrhyw eitemau o'r fath (y cyfeirir atynt fel 'Rhan Dau (II)') yn cael eu nodi'n glir pan fydd papurau'r cyfarfod yn cael eu cyhoeddi, a bydd Cadeirydd y Pwyllgor sy'n trafod eitem 'Rhan II' yn egluro y dylai'r cyfarfod barhau heb bresenoldeb y wasg a'r cyhoedd er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth gyfrinachol.

### Hoffech chi siarad mewn Pwyllgor ar fater sy'n cael ei drafod?

Mae croeso mawr i aelodau'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu, naill ai wyneb yn wyneb neu drwy gyswllt fideo, ond bydd rhaid gofyn am ganiatâd y Cadeirydd os ydynt am siarad neu wneud sylwadau mewn cyfarfod Pwyllgor. Os hoffech chi gyflwyno tystiolaeth gerbron Pwyllgor, neu annerch aelodau ar sail eich profiad mewn perthynas â phwnc dan sylw, cysylltwch ag un o'r Cydlynwyr Craffu ymlaen llaw er mwyn trefnu hyn a dosbarthu unrhyw waith papur i aelodau'r Pwyllgor.

Weithiau, efallai y bydd Pwyllgorau Craffu yn dymuno 'cyfethol' unigolyn sydd â phrofiad neu arbenigedd penodol i ddod yn aelod dros dro o'r Pwyllgor neu ofyn iddynt gyfrannu at ymchwiliad fel tyst arbenigol.

## Cael y wybodaeth ddiweddaraf am argymhellion Pwyllgorau Craffu Sir Ddinbych

Mae'n bosib i chi gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n cael ei drafod yng nghyfarfod pob Pwyllgor Craffu, yn ogystal ag unrhyw un o gyfarfodydd cyhoeddus eraill y Cyngor, drwy fynd i'r dudalen 'cyfarfodydd' ar wefan y Cyngor. Mae 'rhaglen waith' ddiweddaraf pob un o'r Pwyllgorau Craffu ar gael, ynghyd â'r papurau perthnasol ar gyfer pob cyfarfod, a bydd y rhaglen sydd wedi'i chadarnhau ar gyfer pob cyfarfod ar gael rhwng 5 a 7 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod fel arfer.

Mae cofnodion y cyfarfodydd craffu blaenorol a chofnod o’r argymhellion a wnaed hefyd ar gael ar wefan y Cyngor, yn ogystal â’r recordiadau o gyfarfodydd craffu diweddar.

Mae rhagor o gyngor neu wybodaeth ar gael drwy gysylltu â’r Cydlynwyr Craffu, Karen Evans ar karen.a.evans@sirddinbych.gov.uk (01824 712575) neu Rhian Evans ar rhian.evans@sirddinbych.gov.uk (01824 712554), neu drwy anfon neges e-bost i'r cyfeiriad e-bost cyffredinol canlynol: democrataidd@sirddinbych.gov.uk.

## Ffurflen Gais Craffu

Oes yna unrhyw fater yr hoffech chi i'r Pwyllgorau Craffu gael golwg arno?

| |
|---|
| |

Rhowch ddisgrifiad byr o'r pwnc yr hoffech chi i un o'r Pwyllgorau Craffu ei ystyried, gan nodi pam rydych yn credu y dylai gael ei ystyried.

| |
|---|
| |

Hoffech chi fynd i un o gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu? HOFFWN / NA HOFFWN

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech chi roi'r manylion isod er mwyn i ni allu ymateb i'ch cais.

| |
|---|
| Eich enw: |
| Cyfeiriad: |
| Cod Post: |
| E-bost: |
| Rhif ffôn: |

Dychwelwch y ffurflen hon i:

Cydlynwyr Craffu
Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol:  Pobl
Gwasanaethau Democrataidd
Blwch Post 62
Rhuthun
LL15 9AZ
neu anfonwch y ffurflen dros e-bost i democrataidd@sirddinbych.gov.uk